**‘HAVEN’ O *SEAVAIGERS* GAN SALLY BEAMISH**

CYNLLUN GWERSI I’R DOSBARTH CYNRADD gan Fran Hart

GWYLIO’R FFILM | GWRANDO AR Y SAIN

Ar gyfer:

- Cwricwlwm Cenedlaethol **LLOEGR** (CA2)
- Cwricwlwm Rhagoriaeth **YR ALBAN** (Ail Lefel)
- Cwricwlwm i **GYMRU**: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)
- Cwricwlwm Cynradd **GOGLEDD IWERDDON** (CA2)

*Cefndir*

**Y cyfansoddwr:** **SALLY BEAMISH**

- Mae Sally Beamish wedi sgrifennu cerddoriaeth ar gyfer amrywiaeth enfawr o offerynnau ac ensembles gan gynnwys cerddoriaeth ar gyfer opera, theatr, concerti (darnau ar gyfer offerynnau unigol gyda cherddorfa) ac offerynnau gwerin traddodiadol.
- Yn ogystal â bod yn gyfansoddwr cerddoriaeth glasurol enwog, mae Sally Beamish hefyd yn chwaraewr fiola, ac wedi chwarae yn y Raphael Ensemble, Academi St Martins a London Sinfonietta.
- Mae Sally’n hunan-ddysgedig i raddau helaeth fel cyfansoddwr ac fe astudiodd y fiola ym Manceinion. Yna parhaodd i astudio’r fiola dramor yn yr Almaen. Cafodd ei mentora’n achlysurol mewn cyfansoddi gan enwogion ym myd cerddoriaeth glasurol, gan gynnwys Lennox Berkeley, Oliver Knussen a Peter Maxwell Davies, ymhlith eraill.

**Y Gerddoriaeth:** **‘HAVEN’ O *SEAVAIGERS***
*Ynganiad:* *SI- fei - jyrs*

- ‘Haven’ o’r concerto *Seavaigers* yw’r darn yma gan Sally Beamish. Ystyr *Seavaigers* yw ‘Mordwywyr’ mewn Sgoteg. Pobl sy’n teithio ar y môr ac yn gweithio ar gychod yw mordwywyr. Mae Seavaigers yn cyfeirio’n arbennig at Fôr y Gogledd, sydd oddi ar arfordir dwyreiniol yr Alban a Lloegr.

© BBC 2024

- Mae teithio ar y môr yn gyffrous ac yn brydferth ond gall fod yn anodd. Rhaid i forwyr ymdopi â moroedd garw, tywydd gwyllt a mordwyo ar draws cannoedd o filltiroedd o ddŵr! Mae 'Haven' yn disgrifio'r dychweliad hir-ddisgwyliedig adref ar ôl bod ar y môr a'r cyffro o weld tir eto.
- Yr offerynnau unigol yn *Seavaigers* yw'r delyn Albanaidd, neu 'clársach' a ffidil Shetland. Mae'r rhain yn cael eu chwarae gan Catriona McKay a Chris Stout sy'n dod o Dundee a Shetland, sef lleoedd yn yr Alban sydd â'u hanes wedi'i gysylltu'n agos â Môr y Gogledd.
- Mae *Seavaigers* yn enghraifft o gyfansoddwr yn cyfuno offerynnau gwerin traddodiadol a cherddorfa linynnol glasurol i greu asiad cerddorol o sain.

*Canlyniadau dysgu*

*Bydd dysgwyr yn:*

- Gwrando a myfyrio ar y gerddoriaeth maen nhw'n ei chlywed
- Archwilio gwybodaeth sy'n datblygu am gydrannau cerddorol trwy gyfansoddi cerddoriaeth i greu naws penodol
- Defnyddio lleisiau ac offerynnau'n greadigol
- Datblygu rheolaeth ar synau i berfformio gyda mwy o fynegiant
- Datblygu chwarae'n fyrfyfyr drwy gwestiwn ac ateb
- Datblygu dealltwriaeth o'r cordiau – cytgordiau ac anghytgordiau
- Dysgu geirfa gerddorol

*Adnoddau sydd eu hangen:*

- Offerynnau traw a di-draw yn yr ystafell ddosbarth

*Rhestr wirio'r cwricwlwm*

**Cwricwlwm Cenedlaethol LLOEGR** (CA2)

- Gwrando gan roi sylw i fanylion a dwyn i gof synau gyda chof clust cynyddol
- Chwarae a pherfformio fel unawdydd ac mewn ensemble, defnyddio eu lleisiau a chwarae offerynnau cerdd gyda chywirdeb, rhuglder, rheolaeth a mynegiant cynyddol
- Chwarae'n fyrfyfyr a chyfansoddi cerddoriaeth at amrywiaeth o ddibenion gan ddefnyddio dimensiynau cydberthynol cerddoriaeth

**Cwricwlwm Rhagoriaeth YR ALBAN (Ail Lefel)**

- Perfformio ar offerynnau, yn unigol neu fel rhan o grŵp, i gyfleu naws a chymeriad darn o gerddoriaeth drwy, er enghraifft, ddefnyddio dynameg a mynegiant priodol
- Defnyddio llais, offerynnau a thechnoleg i greu cerddoriaeth, arbrofi gyda ansawdd, er enghraifft, gan ddefnyddio offerynnau traw/di-draw i greu alawon a rhythmau syml

© BBC 2024

**Cwricwlwm i GYMRU: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)**

- Rwy'n gallu archwilio a disgrifio sut mae artistiaid a gwaith creadigol yn cyfleu naws, teimladau a syniadau a'r effaith maen nhw'n ei chael ar gynulleidfa.
- Rwy'n gallu adnabod ac ymateb yn greadigol i heriau, a gwneud hyn gyda gwytnwch a hyblygrwydd
- Rwy'n gallu cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun, a gwneud cysylltiadau rhwng fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill, ac o leoedd a chyfnodau gwahanol.

**Cwricwlwm Cynradd GOGLEDD IWERDDON (CA2)**

- Trafod a gwneud awgrymiadau am gerddoriaeth a grëir ganddynt eu hunain ac eraill
- Meddwl a siarad am elfennau cerddoriaeth a sut y cânt eu defnyddio mewn cerddoriaeth o wahanol arddulliau a diwylliannau
- Creu straeon a lluniau drwy sain, er enghraifft, gan defnyddio lleisiau, offerynnau a ffynonellau sain eraill

*Y gwersi yn gryno*

Mae'r cynllun gwaith hwn wedi'i drefnu dros bedair gwers. Mae croeso i chi ei addasu i weddu i'ch plant a'r amser/adnoddau sydd gennych ar gael.

Am arweiniad ar nodiant, gweler yma.

***GWERS 1:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Gwrando ar y recordiad/gwylio'r ffilm a thrafod beth yw hafan (*haven*)<br>Archwilio offerynnau i ddatblygu dealltwriaeth o gytgordiau ac anghytgordiau<br>Defnyddio patrwm 8 curiad cytunedig o gytgordiau ac anghytgordiau fel sail i gyfansoddiad storm |
| Bwriad dysgu: | Gwrando a myfyrio ar y gerddoriaeth a glywir<br>Datblygu dealltwriaeth o gordiau (gytgordiau/triadau ac anghytgordiau)<br>Defnyddio cordiau mewn cyfansoddiad sy'n cyfleu storm, gan ddefnyddio dynameg, tempo, gwead, ansawdd (*timbre*) ac ati i greu mynegiant |

***GWERS 2:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Deall beth yw chwarae'n fyrfyfyr<br>Gan ddefnyddio nodau cordiau penodol, creu cwestiwn y cytunir arno |

© BBC 2024

Rhoi atebion byrfyfyr i'r cwestiynau y cytunwyd arnynt gan ddefnyddio'r nodau a roddwyd

Bwriad dysgu:

Datblygu rheolaeth ar synau er mwyn chwarae/canu gyda mwy o fynegiant

Datblygu sgiliau chwarae byrfyfyr mewn fformat cwestiwn ac ateb

***GWERS 3:***

Gweithgareddau:

Gwrando ar y recordiad/gwylio'r y ffilm a gallu nodi ble cyrhaeddir yr hafan

Archwilio seiniau lleisiol ynghyd â dynameg, tempo, gwead, ansawdd ac ati i greu cerddoriaeth dawel fel dosbarth

Creu cerddoriaeth i gyfleu cyrraedd lle diogel gan ddefnyddio ystod eang o synau a dynameg, tempo, gwead, ansawdd ac ati.

Bwriad dysgu:

Gwrando a myfyrio ar y gerddoriaeth a glywant

Archwilio'u gwybodaeth gynyddol am ddynameg, tempo, gwead, ansawdd ac ati drwy gyfansoddi cerddoriaeth i greu naws benodol

Defnyddio lleisiau'n greadigol

***GWERS 4:***

Gweithgareddau:

Cyfuno'r cyfansoddiadau o Wersi 1 i 3 I wneud perfformiad storm

Strwythuro y storm, yr adran fyrfyfyr cwestiwn-ateb ac adran cyrraedd yr hafan gyda'i gilydd

Ymarfer a pherfformio, datblygu rheolaeth a chwarae mynegiannol

Bwriad dysgu:

Datblygu rheolaeth ar synau er mwyn chwarae/canu gyda mwy o fynegiant

Perfformio cyfansoddiad strwythuredig mewn ensemble

© BBC 2024

# GWERS 1

*Bwriad dysgu*

- Gwrando a myfyrio ar y gerddoriaeth a glywir
- Datblygu dealltwriaeth o gordiau (cytgordiau/triadau ac anghytgordiau)
- Defnyddio cordiau mewn cyfansoddiad i gyfleu storm, gan ddefnyddio dynameg, tempo, gwead, ansawdd ac ati i greu mynegiant

1. **CAM CYNTAF**

Gwyliwch neu gwrandewch ar 'Haven'.

Beth yw hafan? Mae'n lle diogel. Y gerddoriaeth hon yw symudiad olaf *Seavaigers*, cyfansoddiad gan Sally Beamish sy'n cyfleu'r daith beryglus rhwng ynys Shetland ym Môr y Gogledd a phorthladd tir mawr gogleddol Dundee. Ystyr y teitl yw 'Mordwywyr' ac mae'n cyfeirio at bobl fordwyol Môr y Gogledd.

Mae mewn 3 symudiad – *Storm, Lament* a *Haven*.

Rhannwch y dosbarth yn barau, gan gael parau i drafod sut mae'r gerddoriaeth yn creu'r syniad o hafan ddiogel. Rhannwch fel dosbarth.

2. **Y BRIF DASG**

Nesaf, bydd y plant yn archwilio offerynnau traw i greu cordiau. Mae cyfuno 2 neu fwy o nodau yn creu cordiau. Os ydych chi'n defnyddio glockenspiels a seiloffonau, er enghraifft, gofynnwch i blant chwarae 2 nodyn ar yr un pryd a nodi a yw'r sain yn gyffyrddus ai peidio.

Beth yw'r rheol ar gyfer creu anghytgord? *Chwarae nodau sydd nesaf at ei gilydd.*

Beth yw'r rheol ar gyfer creu cytgordiau? *Chwarae nodau sydd ar wahân.*

**Blwyddyn 5 a 6** – Datblygu hyn i ddeall triadau: cordiau 3 nodyn, e.e. ar allweddell; gelwir y rhain yn gordiau mwyaf (llon) neu leiaf (lleddf). Os oes gennych offerynwyr, gallent rannu'r nodau, e.e. gwreiddyn (nodyn cyntaf y raddfa a'r triad) ac un arall. Er enghraifft, yn C fwyaf, nodau triad C fwyaf yw C, E, G. Gall un myfyriwr chwarae C (y gwreiddyn) a gallai myfyriwr arall chwarae naill ai E (y trydydd) neu G (y pumed). I roi cynnig ar gord lleiaf, gwnewch yr un peth gydag A leiaf lle mae'r triad wedi'i ffurfio o A (gwreiddyn), C (trydydd) ac E (pumed).

Fel dosbarth (**Blwyddyn 3 a 4**) neu mewn grwpiau bach (**Blwyddyn 5 a 6**), crëwch ymdeimlad o berygl mewn patrwm hir 8 curiad o nodau byr, gan ddefnyddio cyfuniad o

© BBC 2024

gytgordiau a anghytgordiau. Cofnodwch y patrwm hwn drwy naill ai sgrifennu enwau'r nodau neu ddefnyddio hen nodiant.

Defnyddiwch y patrwm hwn fel ostinato mewn cyfansoddiad byr i gyfleu storm, gan ychwanegu synau eraill, e.e. offerynnau taro di-draw neu leisiau i greu'r syniad o wynt a thonnau'n taranu. Dylai fod ymwybyddiaeth o ddynameg, tempo, gwead, ansawdd ac ati i greu'r awyrgylch stormus, peryglus.

3. **SESIWN GLOI**

Recordiwch y cyfansoddiad(au) hyd yma, gan y bydd ei angen mewn gwersi diweddarach. Trafodwch pa mor llwyddiannus fu'r grŵp o ran creu awyrgylch stormus.

4. **CWIS DEWISOL**

| | |
|---|---|
| **Beth yw cord?** | Dau nodyn neu fwy wedi'u chwarae ar yr un pryd |
| **Beth yw cyfansoddi?** | Creu neu ysgrifennu cerddoriaeth wreiddiol |
| **Enwch offeryn traw yn yr ystafell ddosbarth** | Glockenspiel, seiloffon |
| **Beth yw'r gair am gord anghyfforddus?** | Anghytgord |
| **Beth yw ostinato?** | Patrwm sy'n ailadrodd o hyd |
| **Beth yw dynameg?** | Pa mor uchel neu dawel yw'r gerddoriaeth |

© BBC 2024

# GWERS 2

*Bwriad dysgu*

- Datblygu rheolaeth ar synau er mwyn chwarae/canu gyda mwy o fynegiant
- Datblygu sgiliau byrfyfyr mewn fformat cwestiwn ac ateb

## 1. CAM CYNTAF

Gwyliwch neu gwrandewch ar ‘Haven’ gan ganolbwyntio ar y ffidil unigol a’r delyn.

Trafodwch nad yw’r cyfan o gerddoriaeth y ffidil unigol a’r delyn wedi’i hysgrifennu yn y gerddoriaeth, ond maen nhw’n ei dyfeisio ar y pryd; felly bydd pob perfformiad yn wahanol. Chwarae byrfyfyr yw’r enw ar hyn. Eglurwch fod unawdwyr yn aml yn chwarae’n fyrfyfyr – roedd y cyfansoddwr eisiau iddyn nhw ychwanegu eu syniadau eu hunain at y darn.

Darllenwch y rhigwm a gwnewch y gweithgaredd canlynol:

*Glaw ar y glaswellt*

*Glaw ar y coed*

*Glaw ar y to*

*Ond dim ar fy nhroed*

| CAM | RHIGWM | AR ÔL Y RHIGWM/AR Y DIWEDD |
|---|---|---|
| **CAM 1** | Llafarganu’r rhigwm tra’n clapio curiad | Cyfrif 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8<br><br>Ailadrodd |
| **CAM 2** | Llafarganu’r rhigwm | Clapio 8 curiad<br><br>Ailadrodd |
| **CAM 3** | Llafarganu’r rhigwm | Plant i ‘feddwl’ 8 curiad<br><br>Ailadrodd |
| **CAM 4** | Llafarganu’r rhigwm | Modelu  clapio rhythm byrfyfyr yn y bwlch 8-curiad<br><br>Ailadrodd |

© BBC 2024

| | | |
|---|---|---|

Daliwch i lafarganu'r rhigwm a gofyn i'r disgyblion fyrfyfyrio rhythmau yn y saib 8 curiad, ac ailadrodd hyn sawl gwaith. Wrth i'r disgyblion fagu hyder, gall hanner y grŵp roi cynnig ar glapio'n fyrfyfyr, wedyn chwarter y dosbarth, wedyn yn raddol gall disgyblion unigol glapio'n fyrfyfyr rhwng bod y dosbarth yn adrodd y rhigwm.

**2. DYSGU**

Cyflwynwch nodau cord D leiaf – D F A. Mae cordiau lleiaf yn swnio'n 'lleddf', tra bod cordiau mwyaf yn swnio'n 'llon'.



Nesaf, cord G leiaf – G Bb D:



Bydd y plant yn ymgyfarwyddo â'r nodau yn y cordiau ar offerynnau traw fel seiloffonau neu glockenspiels.

**3. Y BRIF DASG**

Bydd dosbarth yn datblygu eu gwaith byrfyfyr gan ddefnyddio 'cwestiwn ac ateb'. Bydd hyn yn cyfleu'r alwad am help yn y storm, a'r chwarae byrfyfyr yn cyfleu'r ansicrwydd am ganlyniadau'r daith. Defnyddir cordiau lleiaf i adlewyrchu tristwch.

Yr athro/athrawes i fodelu creu alaw 'cwestiwn' sy'n 2 far o hyd:

| Bar 1 | Bar 2 |
|---|---|
| Dm - DFA | Gm - GBbD |

© BBC 2024

E.e:




Sylwer: dydi'r 'cwestiwn' ddim yn dod i ben ar wreiddyn y cord, felly nid yw'n swnio'n orffenedig. Mae hynny'n ei wneud yn gwestiwn.

Dylai'r plant ddysgu'r dôn fel esiampl.

Cyflwynwch A leiaf – A C E



Dylai'r plant ymgyfarwyddo â nodau A leiaf fel y gallan nhw fyrfyfyrio'r 'ateb'. Dyma gordiau'r ateb 2 far:

| Bar 1 | Bar 2 |
|---|---|
| A leiaf - ACE | D leiaf - DFA |

Yr athro/athrawes i chwarae'r 'cwestiwn' a'r plant i fyrfyfyrio'r 'ateb' gan ddefnyddio'r nodau yn y patrwm cord uchod. Wrth fyrfyfyrio'r ateb, dylai'r plant:

- Orffen ar D, fel ei fod yn swnio fel ateb
- Meddwl am rythm – sut mae ei wneud yn ddiddorol?
- Cofio am y teimlad 8 curiad o'r darn cyntaf
- Meddwl am siâp cerddorol
- Ystyried cynnwys nodau camu i ychwanegu diddordeb. Nodau yw'r rhain sydd ddim yn y cord.
- Canolbwyntio ar 1 neu 2 nodyn i ddechrau a chwarae'n gerddorol, e.e. AE – AD, ac wedyn unwaith y byddant yn hyderus, cynnwys nodau eraill

**Blwyddyn 3 a 4** – Fel dosbarth, gallwch defnyddio'r cwestiwn a argraffwyd uchod neu greu cwestiwn fel dosbarth. Rhannwch y dosbarth yn ddau – hanner yn chwarae'r 'cwestiwn', a hanner yn byrfyfyrio'r 'ateb'. Wedyn cyfnewidiwch rannau.

Yn raddol rhannwch y dosbarth yn grwpiau llai i chwarae'r 'cwestiwn' a'r 'ateb'.

Ymarferwch berfformiadau o waith cwestiwn ac ateb, gan gytuno pwy fydd yn chwarae pa ran, sawl gwaith, ar ba tempo ac ati. All gweddill y dosbarth chwarae'r dilyniant cordiau yn

© BBC 2024

y cefndir? Yn ddelfrydol, dim ond un person fydd yn chwarae’n fyrfyfyr ar y tro er mwyn osgoi gwrthdaro.

**Blwyddyn 5 a 6** – yn yr un grwpiau â Gwers 1, defnyddiwch ‘gwestiwn’ y dosbarth (neu greu cwestiwn eich hunain) i gyd-fynd â’r dilyniant cordiau. Mae angen i’r grŵp ystyried sut i drefnu eu darn cwestiwn ac ateb:

- Pwy fydd yn chwarae’r darn?
- Pwy fydd yn byrfyfyrio’r ateb?
- Fydd pawb yn cael cyfle i fyrfyfyrio?
- A ellir ychwanegu’r cordiau i gefnogi hyn?
- Sawl gwaith gaiff y cwestiwn ei ofyn?
- Pa tempo fydd i’r darn?

## 4. SESIWN GLOI

Rhannwch a chofnodwch y darnau cwestiwn ac ateb, yn cyfleu’r gri am help yn y storm. Gwnewch yn siŵr os oes cwestiwn wedi’i gyfansoddi, ei fod naill ai’n cael ei gofnodi neu ei recordio ar gyfer gwersi yn y dyfodol.

## CWIS DEWISOL

| | |
|---|---|
| **Enwch y ddau fath o gytgord** | Mwyaf a lleiaf |
| **Beth yw chwarae’n fyrfyfyr?** | Dyfeisio cerddoriaeth yn y fan a’r lle |
| **Faint o nodau sydd mewn triad?** | Tri |
| **Ydi cord lleiaf yn swnio’n llon neu’n lleddf?** | Lleddf |

© BBC 2024

# GWERS 3

*Bwriad dysgu*

- Gwrando a myfyrio ar y gerddoriaeth a glywant
- Archwilio'u gwybodaeth gynyddol am gydrannau cerddorol trwy gyfansoddi cerddoriaeth i greu naws benodol
- Defnyddio lleisiau'n greadigol

## 1. CAM CYNTAF

Gwrandewch ar neu gwyliwch 'Haven' eto, gan ofyn i'r plant nodi pryd maen nhw'n clywed y gerddoriaeth yn newid.

Gofynnwch i'r plant ystyried sut mae'r gerddoriaeth yn newid. Er enghraifft, mae bar 489 o 'Haven' (gw. 5'10 yn y trac sain) yn arafu i Andante (cyflymder cerdded) ac mae'n *pp* – pianissimo (distaw iawn). Ar ôl 10 bar, mae'n dychwelyd i'r tempo gwreiddiol (gw. 5'59 yn y trac sain) ac yn cynyddu'n raddol mewn dynameg (crescendo) hyd y diwedd.

Beth maen nhw'n feddwl y gallai'r rhan hon o'r gerddoriaeth ei gynrychioli? Ai dyma'r cwch yn cyrraedd yr harbwr o'r diwedd a'r rhyddhad o fod yn ddiogel?

Adolygu - hyd yn hyn, mae'r dosbarth wedi creu cerddoriaeth storm gan ddefnyddio cytgordiau ac anghytgordiau ac yna wedi byrfyfyrio cwestiwn ac ateb i gynrychioli galw am help yn y storm. Mae'r wers hon yn canolbwyntio ar gyrraedd yr hafan.

## 2. DYSGU

Defnyddiwch seiniau lleisiol i greu cerddoriaeth ddigynnwrf. Archwiliwch wahanol seiniau lleisiol fel ssh, ochneidio, hymian, tapio'r bochau (yn ysgafn), sibrwd, chwibanu ac ati. Archwiliwch strwythuro'r synau, e.e. eu haenu'n raddol neu eu dechrau gyda'i gilydd, a newid dynameg, tempo, gwead, ansawdd ac ati. Trafodwch yr effaith.

## 3. Y BRIF DASG

Defnyddiwch y syniadau hyn i greu darn sy'n cyfleu cyrraedd lle diogel – hafan.

Dylai'r darn ddefnyddio:

- Seiniau lleisiol
- Offerynnau di-draw
- Offerynnau traw
- Cordiau

© BBC 2024

Dylid ystyried dynameg, tempo, gwead, ansawdd ac ati o hyd, er mwyn creu'r emosiynau a'r awyrgylch o gyrraedd y lle diogel. Sut fydd y cyfansoddiad yn dechrau ac yn gorffen?

**Blwyddyn 3 a 4** – cyfansoddi hyn fel dosbarth

**Blwyddyn 5 a 6** – cyfansoddi hyn yn yr un grwpiau â Gwersi 1 a 2

**4. SESIWN GLOI**

Rhannwch a recordiwch y cyfansoddiadau. Oes 'na awgrymiadau am ba mor llwyddiannus yw'r cyfansoddi a pha welliannau y gellir eu gwneud?

**5. CWIS DEWISOL**

| | |
|---|---|
| **Enwch ddwy sain leisiol** | Sibrwd, ssh, hymian, ochneidio |
| **Beth yw strwythur?** | Y ffordd y mae'r gerddoriaeth wedi'i mapio allan |
| **Enwch y term am 2 neu fwy o nodau wedi'u chwarae gyda'i gilydd** | Cord |
| **Beth mae yw ystyr 'andante'?** | Cyflymder cerdded |
| **Pa ddynameg yw PP – pianissimo?** | Yn dawel iawn |

© BBC 2024

# GWERS 4

Bwriad dysgu

- Datblygu rheolaeth ar synau i'w chwarae/canu gyda mwy o fynegiant
- Perfformio cyfansoddiad strwythuredig mewn ensemble

## 1. CAM CYNTAF

Gwrandewch ar neu gwyliwch 'Haven' eto.

Adolygwch – hyd yma mae'r dosbarth wedi creu:

- Cerddoriaeth 'stormus' gan ddefnyddio cytgordiau ac anghytgordiau
- Cwestiwn ac ateb byrfyfyr i gynrychioli galw am help yn y storm
- Cerddoriaeth sy'n cyfleu cyrraedd hafan, gan ddefnyddio seiniau lleisiol, synau traw a di-draw a chordiau

## 2. PRIF DASG

Gan ddefnyddio'r cyfansoddiadau o'r gwersi blaenorol, crëwch ddarn 3 adran:

- Storm
- Galw am help
- Cyrraedd hafan

Ymarferwch bob adran (gan wrando ar y recordiadau lle bo angen a pharatoi perfformiad).

**Blwyddyn 3 a 4 –** dylai'r dosbarth cyfan adolygu pob adran ac yna'i ymarfer fel un darn cyflawn. Mapiwch y strwythur ar fwrdd fel nodyn atgoffa gweledol, a chynnwys nodau/nodiant lle bo angen. Adolygwch sut y dylai'r chwaraewyr reoli eu synau i greu gwahanol hwyliau'r gwahanol adrannau.

**Blwyddyn 5 a 6** - dylai grwpiau adolygu pob adran. Dylent gael nodau/nodiant ysgrifenedig, gydag unrhyw nodiadau i'w hatgoffa beth sydd angen ei chwarae pa bryd, gan gynnwys newid offerynnau a newid dynameg, tempo, gwead, ansawdd ac ati.

Cwestiynau i'w gofyn:

- Ydi'r chwaraewyr i gyd yn glir pa bryd fyddan nhw'n chwarae?
- Oes gan bawb yr offeryn sydd ei angen arnyn nhw ar gyfer y gwahanol adrannau?
- Ydi pawb yn gwybod pa offeryn i'w ddefnyddio ym mhob adran?
- Oes angen arweinydd i bwyntio at grwpiau neu at ryw arwydd i helpu?

© BBC 2024

- Sut fydd y darn yn symud rhwng yr adrannau? Fydd ’na distawrwydd, neu a ellid defnyddio sain/melodi/cord cysylltu?
- Oes angen unrhyw welliannau cyn y perfformiad terfynol?
- Ydi pawb yn cofio sut i reoli’r synau i sicrhau bod y gerddoriaeth yn fynegiannol?

**3. SESIWN GLOI**

Perfformiwch y cyfansoddiadau a’u recordio.

**4. GWERTHUSO**

- Pa mor fynegiannol oedd y gerddoriaeth?
- Pa mor llwyddiannus fu’r dosbarth wrth greu gwahanol awyrgylch?
- Oedd y cyfansoddiad yn teimlo fel un darn oedd yn llifo?
- Beth ellid ei wella ymhellach?
- Beth rydyn ni wedi’i ddysgu?

**5. CWIS DEWISOL**

| | |
|---|---|
| **Beth yw perfformiad?** | Rhannu gwaith â chynulleidfa |
| **Beth yw mynegiant?** | Awyrgylch, naws, emosiynau |
| **Beth yw arweinydd?** | Rhywun sy’n rheoli’r gerddoriaeth |
| **Beth yw nodiant?** | Cynrychioli seiniau mewn symbolau |
| **Beth yw anghytgord?** | Cord sy’n swnio’n anghyfforddus |

© BBC 2024

**CAMAU PELLACH**

Gweithgareddau trawsgwricwlaidd

- **CERDDORIAETH:** Gwrandewch ar gerddoriaeth storm gan gyfansoddwyr eraill a chymharwch e.e. *Storm Interlude* Britten o'i opera *Peter Grimes*, *Eine Alpensinfonie – Gewitter und Sturm* gan Richard Strauss, *Storm* gan Judith Weir, neu *The Tempest* gan Tchaikovsky. Gwrandewch ar enghreifftiau o gerddoriaeth draddodiadol yr Alban a chymharu'r synau a glywir yn 'Haven'. Gwrandewch ar *Storm* a *Lament* o Seavaigers a nodwch sut mae'r symudiadau'n cysylltu.

- **CYMRAEG:** Chwiliwch am gerddi am hafanau. Defnyddiwch nhw fel ysbrydoliaeth i'r plant ysgrifennu cerdd am hafan. **Blwyddyn 3 a 4** – cerdd gorawl, **Blwyddyn 5 a 6** – perfformio cerddi unigol. Gellid cynnwys y rhain mewn perfformiad neu wasanaeth boreol, i gyfeiliant y gerddoriaeth a gyfansoddwyd yn y gwersi.

- **DAEARYDDIAETH:** Dysgwch fwy am ynysoedd yr Alban, gan ganolbwyntio ar Ynysoedd Shetland. Ymchwiliwch i'r cynefinoedd, y tywydd a'r ddaeareg sy'n ffurfio'r ynysoedd.

**GEIRFA'R TERMAU CERDDOROL A DDEFNYDDIR**

| TERM | DIFFINIAD |
|---|---|
| Anghytgord | Cord sy'n swnio'n anghyffyrddus, gwrthdaro |
| Alaw | Y dôn, gaiff ei ffurfio wrth chwarae seiniau uchel ac isel eu traw un ar ôl y llall (dyma'r rhan o'r gerddoriaeth rydych chi'n aml yn cael eich hun yn ei chanu neu'n ei chofio) |
| Byrfyfyrio | Creu cerddoriaeth heb baratoi |
| Concerto | Darn o gerddoriaeth glasurol i un neu fwy o unawdwyr ynghyd â cherddorfa neu ensemble |
| Cord | Dau neu fwy o nodau wedi'u chwarae ar yr un pryd |
| Cyfansoddi | Creu cerddoriaeth wreiddiol |
| Cytgord | Cord sy'n swnio'n gyfforddus (mwyaf neu leiaf) |
| Dynameg | Pa mor uchel neu ddistaw y dylid chwarae darn o gerddoriaeth |
| Gwead | Sut rydyn ni'n cyfuno, cymysgu a haenu synau (pa mor 'drwchus' neu 'denau' yw'r gerddoriaeth, e.e. faint o offerynnau sy'n chwarae, sut maen nhw'n cael eu chwarae ac ati.) |
| Mynegiant | Y naws, teimlad, emosiwn neu awyrgylch a grëir gan y gerddoriaeth |
| Offerynnau di-draw | Offerynnau heb seiniau ar wahanol drawiau ac na ellir eu defnyddio i chwarae alaw e.e. triongl |
| Offerynnau traw | Offerynnau sydd â thrawiau gwahanol ac y gellir eu defnyddio i chwarae alaw neu dôn e.e. glockenspiel |
| Ostinato | Rhythm neu alaw sy'n ailadrodd yn gyson |

© BBC 2024

| | |
|---|---|
| Rhythm | Y patrwm sy'n mynd dros guriad. Y rhythm yw patrwm y geiriau mewn caneuon |
| Ansawdd | Ansawdd sain penodol offeryn cerddorol (e.e. bydd gan eich llais ansawdd gwahanol i ffliwt) |
| Staccato | Seiniau cwta, datgysylltiedig |
| Strwythur | Trefn y gwahanol adrannau sy'n ffurfio darn o gerddoriaeth e.e. rhagarweiniad, pennill, cytgan, diweddglo |
| Symudiad | Strwythur a ddefnyddir i rannu cyfansoddiad cerddorol hirach yn ddarnau e.e. gall symffoni fod yn dri neu bedwar symudiad |
| Tempo | Cyflymder y gerddoriaeth |
| Triad | Cord â thri nodyn, e.e. C fwyaf |

© BBC 2024